# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 7 Mehefin 2021

## SL(6)007 – Rheoliadau Llacio'r Gofynion Adrodd mewn Ysgolion (Cymru) (Coronafeirws) 2021

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio nifer o reoliadau presennol yn ymwneud â'r gofynion adrodd ar ysgolion o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. Y rhain yw:

- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol")
- Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Adrodd");
- Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion"); a
- Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau Perfformiad Ysgolion").

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bosibl na fydd ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn gallu cydymffurfio â rhai gofynion adrodd statudol, ac y gallai gofynion o'r fath hefyd fod yn faich gweinyddol anghymesur ar y rhai sy'n gyfrifol.

Mae'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol ei chyhoeddi mewn adroddiad blynyddol. Felly, mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd yn y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol ac effaith hynny yw nad yw'n ofynnol cyhoeddi'r wybodaeth a ganlyn ar gyfer y flwyddyn ysgol 2020-2021 mewn unrhyw adroddiad blynyddol llywodraethwyr—

- paragraff 6 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (y crynodeb o berfformiad yr ysgol uwchradd),
- paragraff 7 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (nifer absenoldebau awdurdodedig disgyblion a nifer absenoldebau anawdurdodedig disgyblion),
- paragraff 8(b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol (gwybodaeth bellach sy'n ymwneud ag absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig disgyblion).

Mae diwygiad canlyniadol wedi ei wneud hefyd i'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol mewn perthynas â gofynion ffurf fer yr adroddiad blynyddol.

Mae'r Rheoliadau Adrodd yn gwneud darpariaeth o ran yr adroddiad y mae'n ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ei anfon at rieni a disgyblion sy'n oedolion bob blwyddyn ysgol a'r

wybodaeth ychwanegol y caiff rhiant ofyn i'r pennaeth amdani. Nid yw pob plentyn wedi mynychu'r ysgol drwy gydol y flwyddyn ac mae llawer o ddisgyblion ac athrawon wedi gweithio ac wedi astudio o bell am gyfnodau estynedig. Mae hyn yn peri heriau i athrawon mewn cysylltiad â'r cynnwys llawn a fyddai fel arfer yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i rieni a disgyblion sy'n oedolion. Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod darpariaeth newydd yn y Rheoliadau Adrodd ac effaith hynny yw diwygio'r rhwymedigaethau ar y penaethiaid, mewn cysylltiad â chynnwys penodedig adroddiadau, fel eu bod yn rhwymedig i wneud ymdrechion rhesymol i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn rhagnodi'r wybodaeth ysgol y mae rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion ei chyhoeddi mewn prosbectws ysgol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y cyfnodau estynedig o ddysgu a gweithio gartref i lawer o ddisgyblion ac athrawon wedi cael effaith negyddol ar ansawdd rhywfaint o'r data a reoleiddir gan y Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion, yn enwedig ar y data ynghylch absenoldebau disgyblion. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylid eu cyhoeddi mewn prosbectws ysgol. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r rhwymedigaeth ar gorff llywodraethu ysgol i gynnwys mewn unrhyw brosbectws ysgol y data a nodir ym mharagraff 30 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny (data sy'n ymwneud ag absenoldebau disgyblion) mewn cysylltiad â'r flwyddyn ysgol 2020-2021.

Mae'r Rheoliadau Perfformiad Ysgolion yn rheoleiddio trosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad addysgol disgyblion o benaethiaid i gyrff llywodraethu ysgolion, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cyfnodau estynedig o ddysgu gartref i lawer o ddisgyblion, a gweithio gartref i athrawon, wedi cael effaith negyddol ar ansawdd rhywfaint o'r data a reoleiddir gan y Rheoliadau Perfformiad Ysgolion. Ni fydd llawer o ysgolion wedi cwblhau asesiadau'r cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol ac ni fydd Gweinidogion Cymru, drwy awdurdodau lleol, yn casglu'r data hyn am y flwyddyn ysgol 2020-2021. Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn datgymhwyso'r rhwymedigaethau ar ysgol i gyflenwi'r wybodaeth ragnodedig sy'n ymwneud â'r flwyddyn ysgol 2020-2021 i awdurdodau lleol, ac ar awdurdodau lleol i gyflenwi'r wybodaeth honno i Weinidogion Cymru.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysg 1996, Deddf Addysg 1997, Deddf Addysg 2002
**Fe'u gwneud ar:** 23 Mai 2021
**Fe'u gosodwyd ar:** 25 Mai 2021
**Yn dod i rym ar**: 18 Mehefin 2021